

**Pembrokeshire County Council  
Cyngor Sir Penfro**



**PLANT AC YSGOLION**

**Dyfodol Darpariaeth Addysg Gynradd  
yn Ardal Aberdaugleddau**

**ADRODDIAD YMGYNGHORI**

**Kate Evan-Hughes  
Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion**

**Chwefror 2017**

**Cyhoeddwyd gan:**

**Cyngor Sir Penfro  
Cyfarwyddiaeth Plant ac Ysgolion  
Neuadd y Sir  
Hwlfordd  
SA61 1TP**

**Chwefror 2017**

I gael copi o'r cyhoeddiad hwn mewn  
Braille, mewn print mwy neu ar dâp sain,  
neu mewn iaith arall, cysylltwch â  
Chyngor Sir Penfro ar 01437 776613

# Rhagair

Mae Cyngor Sir Penfro yn gyfrifol am hyrwyddo safonau addysgol uchel ac am ddarparu addysg gynradd ac uwchradd effeithlon. Mae cael yr ysgolion iawn yn y lleoedd cywir a sicrhau eu bod yn addas i ddysgwyr yr 21<sup>ain</sup> ganrif yn her y mae cynghorau ledled Cymru yn ei hwynebu.

Mae ateb yr her hon yn gofyn am adolygu'r nifer a'r math o ysgolion sydd gan y Cyngor yn ei ardal, ac asesu a yw'r defnydd gorau yn cael ei wneud o'i adnoddau a'i gyfleusterau.

Mae'r Cyngor yn adolygu ei ddarpariaeth ar sail:

- Ansawdd y ddarpariaeth addysgol a'i chynaliadwyedd yn y dyfodol
- A oes digon o leoedd mewn ysgolion, ac a ydynt yn hygyrch
- Cyflwr, addasrwydd a safon adeiladau ysgolion
- Gwerth am arian

Mae'r Adroddiad Ymgynghori hwn yn amlinellu'r ymgynghoriad statudol a gynhaliwyd mewn perthynas â'r achos dros newid i'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Aberdaugleddau. Yn ogystal, mae'r holl ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'u cofnodi, ynghyd â chrynodeb o bob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion. Ategir y rhain drwy esbonio neu wrthod (fel y bo'n briodol) unrhyw bryderon.

Bydd Cyngor Sir Penfro yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn ei gyfarfod ar 2 Mawrth 2017.

**Kate Evan-Hughes**  
**Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion**

# Cynnwys

<b>1. Cyflwyniad</b>	1
<b>2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori</b>	2
<b>3. Trefniadau'r Ymgynghoriad</b>	3
3.1. Trefniadau Cyffredinol	
3.2. Cyfarfodydd Rhanddeiliaid	
3.3. Ymgynghoriad ag Esgobaeth Mynyw	
<b>4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad</b>	4
4.1. Nifer a Phroffil yr Ymatebion a Dderbyniwyd	
4.2. Ymateb gan Estyn	
<b>5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad</b>	5
5.1. Cytundeb cyffredinol	
5.2. Materion / Pryderon ynglŷn ag Ysgol Y Meads / Ysgol Iau Aberdaugleddau	
5.3. Materion / Pryderon yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis	
5.4. Materion a godwyd gan Estyn	
<b>ATODIAD A - Ymateb gan Estyn</b>	13
<b>ATODIAD B - Gohebiaeth a dderbyniwyd</b>	16
<b>ATODIAD C - Data Perfformiad 2016 - Fy Ysgol Leol</b>	32

# 1. Cyflwyniad

Mae dyletswydd statudol ar Gyngor Sir Penfro i sicrhau lleoedd ysgol digonol ac addas yn ei ardal ac i benderfynu a yw'n gwneud y defnydd gorau o'i adnoddau a'i gyfleusterau er mwyn darparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Cynhaliwyd ymgynghoriad rhagarweiniol â disgyblion, rhieni, staff, llywodraethwyr a'r cyhoedd yn ystod y gwanwyn 2016 ar gyfeiriad darpariaeth addysg gynradd yn ardal Aberdaugleddau yn y dyfodol. O ganlyniad, cyflwynodd y Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion adroddiad i'r Cyngor ym mis Gorffennaf 2016 er mwyn adrodd ar y canfyddiadau ac argymhell ffordd ymlaen.

Dyma oedd penderfyniad Cyngor Sir Penfro ar 14 Gorffennaf 2016:

***Dylid awdurdodi'r Cyfarwyddwr Plant ac Ysgolion i ddechrau'r ymgynghoriad statudol ar y cynnig i:***

- a) Derfynu Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau a sefydlu ysgol 3-11 newydd gan ddefnyddio safleoedd presennol y ddwy ysgol;***
- b) Ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis er mwyn derbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser.***

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad statudol dilynol yn ystod y cyfnod 21 Tachwedd 2016 hyd at 9 Ionawr 2017.

Mae'r ddogfen hon yn adlewyrchu cyfrifoldeb y Cyngor Sir fel rhan o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 i gyhoeddi Dogfen Ymgynghori. Mae'r ddogfen hon:

- Yn crynhoi pob un o'r materion a godwyd gan ymgynghoreion;
- Yn ymateb i'r materion hyn drwy esbonio neu wrthod y pryderon gyda rhesymau ategol, ac
- Yn amlinellu barn Estyn ynglŷn â rhinweddau cyffredinol y cynnig.

## 2. Dosbarthu'r Adroddiad Ymgynghori

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori hwn yn cael ei ddsbarthu i'r canlynol:

<p>Cyrff Llywodraethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads</li> <li>• Ysgol Iau Aberdaugleddau</li> <li>• Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis</li> <li>• Ysgol Gymunedol Hakin</li> <li>• Ysgol Wirfoddol a Reolir Hubberston</li> <li>• Ysgol y Glannau</li> <li>• Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston</li> <li>• Ysgol Gymunedol Neyland</li> <li>• Ysgol Aberdaugleddau</li> </ul>	<p>Rhieni/gofalwyr/gwarcheidwaid a staff:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads</li> <li>• Ysgol Iau Aberdaugleddau</li> <li>• Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis</li> <li>• Ysgol Gymunedol Hakin</li> <li>• Ysgol Wirfoddol a Reolir Hubberston</li> <li>• Ysgol y Glannau</li> <li>• Ysgol Gynradd Gymunedol Johnston</li> <li>• Ysgol Gymunedol Neyland</li> <li>• Ysgol Aberdaugleddau</li> </ul>
Cyfarwyddwr Addysg – Esgobaeth Mynyw	Cyfarwyddwr Addysg – Esgobaeth Tyddewi
Gweinidogion Cymru	Estyn
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Paul Davies AC – Etholaeth</li> <li>• Simon Thomas AC – Rhanbarth</li> <li>• Joyce Watson AC – Rhanbarth</li> <li>• Eluned Morgan AC – Rhanbarth</li> <li>• Neil Hamilton AC – Rhanbarth</li> <li>• Stephen Crabb AS</li> <li>• Cyng. G Woodham – Dwyrain Aberdaugleddau</li> <li>• Cyng. S Joseph – Canol Aberdaugleddau</li> <li>• Cyng. R Sinnett – Gorllewin Aberdaugleddau</li> <li>• Cyng. S Hudson – Gogledd Aberdaugleddau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)</li> <li>• Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT)</li> <li>• UCAC</li> <li>• Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr</li> <li>• Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)</li> <li>• ASCLE</li> <li>• UNISON</li> <li>• GMB</li> </ul>
ERW – Consortiwm Addysg Rhanbarthol	Uned trafndiaeth y Cyngor Sir
Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys	Cyngor Tref Aberdaugleddau
<p>Darparwyr meithrin annibynnol:</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>a. Meithrinfeydd Dydd/Cylchoedd Chwarae Cofrestredig</li> <li>b. Gwarchodwyr Plant Cofrestredig</li> </ol>	Partneriaeth Gofal Plant a Phobl Ifanc – Grŵp y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Dysgu
<ol style="list-style-type: none"> <li>a. Bwrdd Iechyd Hywel Dda</li> <li>b. SNAP Cymru</li> <li>c. Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth</li> </ol>	Cymunedau yn Gyntaf Sir Benfro
Cyngor Sir Caerfyrddin	Cyngor Sir Ceredigion

Yn ogystal, bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddsbarthu i'r holl ymgynghoreion sydd wedi gofyn yn benodol am gael gwybod bod yr adroddiad ar gael.

## 3. Trefniadau'r Ymgynghoriad

### 3.1 Trefniadau Cyffredinol

Cyhoeddwyd y Ddogfen Ymgynghori ar 21 Tachwedd 2016; y dyddiad hwn hefyd oedd dechrau'r cyfnod ymgynghori statudol. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 9 Ionawr 2017. Dosbarthwyd y Ddogfen Ymgynghori / anfonwyd dolenni at yr holl ymgynghoreion statudol a restrwyd ar Dudalen 3 y ddogfen honno.

Trefnwyd bod y Ddogfen Ymgynghori ar gael ar wefan y Cyngor Sir yn [www.sir-benfro.gov.uk/dweudeichdweud](http://www.sir-benfro.gov.uk/dweudeichdweud).

### 3.2 Cyfarfodydd Rhanddeiliaid

Trefnwyd y cyfarfodydd canlynol gyda rhanddeiliaid:

#### Staff a Llywodraethwyr

Dydd Llun 28 Tachwedd - Ysgol Iau Aberdaugleddau

Dydd Iau 1 Rhagfyr - Sant Ffransis; Ysgol Babanod Y Meads

#### Cyfarfodydd Cymuned

Dydd Llun 12 Rhagfyr - Ysgol Uwchradd Aberdaugleddau

Dydd Iau 15 Rhagfyr - Sant Ffransis

#### Cyfarfodydd Cyngorau Ysgol

Dydd Iau 5 Ionawr - Ysgol Iau Aberdaugleddau

Dydd Gwener 6 Ionawr - Ysgol Babanod Y Meads; Sant Ffransis

Darparwyd copïau caled o'r Ddogfen Ymgynghori a'r ffurflenni ymateb i'r rhai a fynychodd y sesiynau; gadawyd copïau o'r ddaau yn yr ysgolion.

### 3.4 Ymgynghoriad ag Esgobaeth Mynyw

Oherwydd statws Ysgol Sant Ffransis fel Ysgol Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyr, ymgynghorwyd â Chyfarwyddwr Addysg Esgobaeth Mynyw. Cafodd hyn ei wneud cyn cyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori a chyn i'r Cyngor benderfynu dechrau ar yr ymgynghoriad. Caniatwyd cyfnod ymgynghori o 28 diwrnod i wneud hyn.

Mae'r Esgobaeth o'r farn y byddai ymestyn ystod oedran Ysgol Sant Ffransis yn *"annog rhieni i ddewis Ysgol Sant Ffransis gan na fyddai'n rhaid i'r plant newid ysgolion ... fel y mae'n rhaid iddynt wneud ar hyn o bryd. Yn ychwanegol at y buddion i Sant Ffransis, mae'n amlwg y bydd y cynnig yn lliniaru rhai o'r heriau a wynebir gan y ddwy ysgol arall dan sylw, ac am y rheswm hwn hefyd rwyf yn falch i gefnogi'r cynnig"*.

## 4. Gohebiaeth yr Ymgynghoriad

### 4.1 Nifer a Phroffil yr Ymatebion a Dderbyniwyd

Derbyniwyd cyfanswm o 104 o ymatebion drwy'r ffurflen dolen we ar-lein, ffurflen ymateb gyffredinol a ffurflen ymateb "gyfeillgar i ddisgyblion", negeseuon e-bost a llythyrau. Mae'r rhain fel a ganlyn:

Ffurflen dolen we ar-lein / ffurflen copi caled	99
Llythyrau / negeseuon e-bost	2
Cynghorau Ysgol	3
<b>CYFANSWM</b>	<b>104</b>

Rhoddir proffil yr ymatebwyr isod ac mae'n adlewyrchu'r holl ddisgrifiadau a roddwyd. Mae'r proffil hwn yn dynodi rôl ymatebwyr fel rhan o'r ymgynghoriad a gall ddynodi rolau lluosog, e.e. rhiant, staff a thrigolyn lleol; o ganlyniad, nid yw'r cyfanswm yn gyfartal â chyfanswm nifer yr ymatebion a dderbyniwyd.

	Y Meads	Ysgol Iau Aberdaugleddau	Ysgol Gatholig Sant Ffransis	Cyfanswm
<b>Rhiant cyn-ysgol</b>				<b>3</b>
<b>Rhieni</b>	27	11	39	<b>65</b>
<b>Staff</b>	5	1	2	<b>12</b>
<b>Llywodraethwyr</b>				<b>1</b>
<b>Trigolion</b>				<b>27</b>

### 4.2 Ymateb gan Estyn

Mae'r Cyngor Sir wedi derbyn ymateb manwl i'r cynnig gan Estyn. Mae ei gasgliad cyffredinol ynglŷn â'r cynnig fel a ganlyn:

*Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig. Mae'n cysylltu'n dda â pholisi'r cyngor i greu ysgolion cynradd pob oed lle bo modd. Yn ogystal, bydd ymestyn ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Ffransis yn galluogi'r Cyngor i gynnal darpariaeth feithrin seiliedig ar ffydd yn ardal Aberdaugleddau. Mae'r cynigiwr yn disgrifio'n glir beth yw manteision ac anfanteision disgwylid y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y manteision y gall ysgol gynradd 3-11 newydd wella trefniadau pontio, effeithiolrwydd ariannol a mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau.*

*Er gwaetha'r diffyg manylion ynglŷn â rhai agweddau ar y cynnig, mae'r cynigwyr yn gyffredinol wedi cyflwyno achos boddhaol dros sefydlu ysgol 3-11 newydd ac ymestyn ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Ffransis. Mae Estyn o'r farn fod y cynnig hwn yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal o leiaf.*

Atodid yr ymateb llawn i'r cynnig gan Estyn yn **ATODIAD A**.



## 5. Ymatebion i'r Ymgynghoriad

### 5.1 Cyffredinol

Lle dewisodd ymatebwyr ddefnyddio'r ffurflen ar-lein neu'r ffurflen copi caled a ddarparwyd, gofynnwyd iddynt ymateb i nifer fach o gwestiynau er mwyn nodi pa un o'r datganiadau canlynol oedd yn adlewyrchu eu barnau orau. Mae'r canfyddiadau fel a ganlyn:

5.1.1 *Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig i derfynu Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau a sefydlu ysgol 3-11 newydd gan ddefnyddio safleoedd presennol y ddwy ysgol.*

	Cyfanswm	
	Nifer	%
<b>Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall</b>	12	12
<b>Rwyf yn cefnogi'r cynnig</b>	68	69
<b>Nid wyf yn cefnogi'r cynnig</b>	16	16
<b>Gadawyd yn wag</b>	3	3
	<b>99</b>	

5.1.2 *Nodwch pa un o'r canlynol sy'n adlewyrchu eich barn ar y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis er mwyn derbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser.*

	Cyfanswm	
	Nifer	%
<b>Nid wyf yn teimlo'n gryf y naill ffordd neu'r llall</b>	9	9
<b>Rwyf yn cefnogi'r cynnig</b>	88	89
<b>Nid wyf yn cefnogi'r cynnig</b>	1	1
<b>Gadawyd yn wag</b>	1	1
	<b>99</b>	

Siomedig yw nodi'r lefel ymateb gymharol isel i'r ymgynghoriad hwn, yn enwedig pan ystyrir y gallai'r cynnig effeithio ar gymaint o bobl. Fodd bynnag, mae'n eglur o'r ymatebion a dderbyniwyd fod cefnogaeth i'r cynnig. Mae rhestr o'r holl sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori wedi'i hatodi yn **ATODIAD B**. Gwnaed dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau hyn, ac mae hwn yn datgelu nifer o faterion, a rhoddir rhestr fanwl o'r rhain isod, ynghyd ag ymatebion priodol yr Awdurdod. Nod y dadansoddiad fu cipio, dehongli a chyflwyno canfyddiad y cyhoedd mewn perthynas â'r cynnig mor gywir ag y bo modd. Rhoddwyd pwysoliad cyfartal i'r holl sylwadau, ni waeth o ble y daethant, na maint y cynnwys.

Mae'r ohebiaeth a dderbyniwyd yn datgelu nifer o faterion sydd wedi'u codi gan ymgylgoreion. Mae'r rhain yn adlewyrchu cefnogaeth a meysydd pryder, ac fe'u rhestrir isod.

## **5.2 Materion / Pryderon ynglŷn ag Ysgol Y Meads / Ysgol Iau Aberdaugleddau**

### **Sylwadau cefnogol:**

- Mae Ysgol Babanod Y Meads wedi cyrraedd ei chapasiti llawn/mae'n orlawn;
- Dilyniant naturiol rhwng y cyfnod babanod a'r cyfnod iau – mae'r ddwy ysgol eisoes yn gweithio'n agos â'i gilydd;
- Effeithlonrwydd gwell (h.y. rhannu adnoddau/rheolwyr);
- Mae ymagwedd ysgol gynradd pob oedran yn gyson â'r argymhellion yn adroddiad Donaldson;
- Byddai un ysgol yn fwy effeithiol wrth ddelio â materion amddiffyn plant;
- Gwnaed y sylwadau canlynol yng nghyd-destun ysgol gynradd yn cael ei hadeiladu o'r newydd:
  - Nid yw'r adeiladau presennol yn ddigon mawr ac mae diffyg cyfleusterau modern ynddynt – byddai adeiladu o'r newydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn;
  - Byddai'n mynd i'r afael â'r tagfeydd cerbydau sy'n digwydd ar draws y tri safle presennol;
  - Gallai ysgol yn cael ei hadeiladu'n newydd ddarparu cyfleusterau ar gyfer y gymuned gyfan.

### **Rhesymau a roddwyd dros beidio â chefnogi'r cynnig:**

- Dylid rhoi'r gorau i'r broses hyd nes bod cyllid ar gael i adeiladu ysgol newydd
- Bydd yr ysgol arfaethedig yn rhy fawr - byddai felly'n cael effaith niweidiol ar ddysgu a/neu les disgyblion
- Pryder mewn perthynas ag effeithiolrwydd un Pennaeth ar draws dau safle mawr
- Ni ddylai'r opsiwn o gael dwy ysgol gymunedol ar wahân fod wedi'i ddiystyru
- Mae'r ddarpariaeth bresennol (h.y. babanod/plant iau ar wahân) yn rhoi profiad i ddisgyblion o bontio o'r babanod i blant iau cyn iddynt fynd o Flwyddyn 6 i'r ysgol uwchradd
- Y cyfan sydd ei angen yw ehangu'r trefniadau presennol ychydig
- Dylid fod wedi cynnig darpariaeth cyfrwng Cymraeg
- Pryder mewn perthynas â phlant iau yn cymysgu gyda phlant hŷn
- Nid yw'n ymddangos bod y trefniant presennol wedi effeithio ar blant trwy gydol y blynyddoedd

- Nid oes fawr o bwynt uno, gan y byddai ysgol o'r maint hwn yn parhau i weithio gyda'r babanod/plant iau wedi'u rhannu (h.y. ierdydd chwarae/ neuaddau/amserau cinio/gwasanaethau ac ati ar wahân)

### Sylwadau/pryderon cyffredinol

- Mynediad/parcio gwael ar y safleoedd presennol – mae angen ystyried llif traffig a pharcio
- Nid yw'r ddarpariaeth portacabin bresennol yn Ysgol Y Meads yn dderbyniol
- Dylai unrhyw gynnydd ystyried cyfleusterau chwaraeon, dysgu yn yr awyr agored, llwybrau diogel i ysgolion, darpariaeth gymunedol ac uned AAA
- Dylid darparu cyllid cyfrannol i'r ddwy ysgol (yr ysgol newydd ac Ysgol Sant Ffransis)
- Gellid lleoli'r ysgol newydd ar safle Canolfan Hamdden y Meads – gan ddarparu cyfleusterau chwaraeon gwell felly.
- Gellid lleoli'r ysgol newydd ar safleoedd presennol Sant Ffransis ac Y Meads – gallai Ysgol Gatholig Sant Ffransis symud i adeilad presennol Ysgol Iau Aberdaugleddau wedyn.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Dylid rhoi'r gorau i'r broses hyd nes ceir cadarnhao bod cyllid cyfalaf ar gael.	Dim ond yn dilyn proses achos busnes manwl a maith y gellir derbyn cyllid cyfalaf. Mae cyfrannau cyllid yn y dyfodol yn mynnu bod unrhyw broses statudol wedi'i chwblhau cyn dechrau gwneud cyflwyniadau i Lywodraeth Cymru, ac mae'n synhwyrol felly ymgymryd â'r broses hon ar y cyfle cynharaf posibl. Mae'r cynnydd yn gyfle gweddnewidiol i fynd i'r afael â diffyg capasiti yn Aberdaugleddau ac fel y gellir cael y cyllid angenrheidiol cyn gynted ag y bo modd.
Pryderon ynglŷn â maint yr ysgol arfaethedig – bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar ddysgu a/neu les disgyblion.	<p>Mae hwn yn bryder naturiol i rieni ond dylid nodi, pan weithredir y cynnydd, y bydd disgyblion yn aros ar y ddau safle presennol. Yn y tymor hwy, rhagwelir y bydd buddsoddiad cyfalaf ar gael i adeiladu capasiti ychwanegol.</p> <p>Mae'r wybodaeth ganlynol mewn perthynas ag ysgolion mawr yn berthnasol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae oddeutu 15% o ysgolion yng Nghymru wedi'u dosbarthu fel ysgolion "mawr", h.y. ysgolion â 301 a mwy o ddisgyblion;</li> <li>• Mae adroddiad o'r enw "Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol" (Estyn, Maint ysgolion ac effeithiolrwydd addysgol, Rhagfyr 2013) yn darparu tystiolaeth gymhellol sy'n awgrymu bod ysgolion mwy "<i>yn tueddu perfformio'n well nag ysgolion bach a chanolig</i>".</li> <li>• Cydnabyddir mai'r ffactor allweddol i lwyddiant ysgol yw</li> </ul>

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
	<p>arweinyddiaeth dda – <i>“Mae pob ysgol, beth bynnag fo’i maint, yn gallu perfformio’n dda lle mae ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda neu’n rhagorol...”</i>. Yn achos Ysgol y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau, mae arolygiadau diweddaraf Estyn yn nodi bod ansawdd yr arweinyddiaeth yn dda.</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• <i>“Y duedd yw bod angen llai o weithgarwch dilynol ar ysgolion cynradd mawr ar ôl arolygiad nag ysgolion bach neu ganolig.”</i></li> <li>• <i>“Mae darpariaeth y cwricwlwm yn well mewn ysgolion cynradd mawr. Mewn ysgolion bach, mae diffygion yn tueddu i fod yn narpariaeth pynciau sylfaen yng nghyfnod allweddol 2. Mae’r diffygion hyn yn amrywio o un ysgol i’r llall, ond yn aml maent wedi’u cysylltu â bylchau yn arbenigedd y staff”.</i></li> </ul>
<p>Pryder mewn perthynas ag un pennaeth ar draws dau safle mawr.</p>	<p>Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd corff llywodraethol dros dro yn cael ei sefydlu, ac un o’i swyddogaethau cyntaf fydd penodi pennaeth. Ar ôl hyn, bydd y strwythur staffio ar gyfer yr ysgol yn cael ei sefydlu, a bydd angen i hyn ystyried y ffaith y bydd yr ysgol ar draws dau safle. Mewn ysgolion eraill ag amgylchiadau tebyg, mae Arweinydd Sylfaen neu Bennaeth Cynorthwyol/Dirprwy Bennaeth yn goruchwylio pob safle ar wahân.</p>
<p>Ni ddylai’r opsiwn o greu dwy ysgol gynradd gymunedol ar wahân yn Aberdaugleddau fod wedi’i ddiystyru.</p>	<p>Trafodwyd y mater hwn yn faith yn ystod proses ymgysylltu ragarweiniol, a daeth i’r casgliad fod ymdeimlad cryf o gymuned ar hyn o bryd na ddylid ei niweidio drwy gael ysgolion cymunedol ar wahân â dalgylchoedd ar wahân. Gwelir y byddai cyfluniad o’r fath yn peri rhyw.</p>
<p>Y cyfan sydd ei angen yw ehangu’r trefniadau presennol ychydig. Dim angen uno llwyr.</p>	<p>Yn ymarferol, ni fydd disgyblion a rhieni’n gweld llawer o wahaniaeth yn y ddarpariaeth ar ôl gweithredu’r cynnig, gan y bydd safle’r ddwy ysgol yn parhau. Bydd gweithredu’r cynnig yn arwain at greu un ysgol gynradd 3-11 oed yn lle dwy ysgol babanod a phlant iau ar wahân. Bydd uno’r ddwy ysgol yn sicrhau bod y Cyngor mewn lle da i allu cyflwyno achos busnes gweddnewidiol i Lywodraeth Cymru am gyllid cyfalaf.</p>
<p>Dylid fod wedi cynnwys darpariaeth cyfrwng Cymraeg fel rhan o’r cynnig hwn.</p>	<p>Daeth y broses ymgysylltu ragarweiniol a gynhaliwyd yn Aberdaugleddau yn ystod gwanwyn 2016 i’r casgliad, er bod rhywfaint o archwaeth am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr ardal, mae graddau hynny’n amhendant. Fodd bynnag, cydnabuwyd y gallai sefydlu darpariaeth uwchradd newydd fel rhan o ysgol cyfrwng Cymraeg 3-16 yn Hwlfordd effeithio ar ffafriaeth rhieni, ac y bydd angen monitro sut bydd yr ysgol newydd yn effeithio ar ffafriaeth i gael darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ardal Aberdaugleddau.</p>
<p>Pryderon y bydd plant iau yn cymysgu gyda phlant hŷn yn yr ysgol</p>	<p>Yn ymarferol, ni fydd y cynnig yn arwain at unrhyw newid o ran ble fydd babanod a phlant iau wedi’u lleoli. Mae’n debygol iawn y bydd plant y babanod yn parhau i fynychu’r ysgol yn safle Y Meads, a</p>

<b>Pryderon / Sylwadau</b>	<b>Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd</b>
newydd.	bydd plant iau yn y safle Plant Iau presennol. Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn llwyddo i gael cyllid cyfalaf, yna mae'n bosibl y bydd adeilad newydd yn cael ei adeiladu. Os felly, ni fydd disgyblion y Cyfnod Sylfaen yn cymysgu gyda phlant hŷn.
Nid yw'n ymddangos bod y ddarpariaeth bresennol wedi effeithio ar blant ar hyd y blynyddoedd, felly pam newid.	Mae polisi gan y Cyngor o greu ysgolion pob oed (3-11) lle mae'n ymarferol gwneud hynny. Yn hyn o beth, mae Aberdaugleddau yn un o ddwy ardal yn unig sydd ag ysgolion babanod a phlant iau ar wahân. Mae'r newid o'r cyfnod babanod i blant iau yn bwynt trosglwyddo diangen, ac mae'r cynnig yn adlewyrchu strategaeth sy'n gyson â Donaldson.
Mae'r ddarpariaeth bresennol yn rhoi profiad uniongyrchol i ddisgyblion o bontio i ysgol arall, ac mae'n ddefnyddiol pan fyddant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd.	
Angen ystyried llif traffig a pharcio fel rhan o unrhyw newidiadau.	Cydnabyddir y pryder hwn. Mae unrhyw ddatblygiad mewn perthynas ag ehangu adeiladau presennol neu adeilad newydd yn mynnu cynnal asesiad llawn o'r effaith ar drafnidiaeth.
Nid yw'r trefniadau presennol, lle defnyddir ystafelloedd dosbarth dros dro, yn dderbyniol.	Cydnabyddir y pryder hwn. Mae ystafelloedd dosbarth dros dro yn cyflawni rôl werthfawr o ran sicrhau y gellir darparu ar gyfer cynnydd dros dro neu gynnydd cyflym mewn niferoedd disgyblion am gost gymharol isel. Fel y cyfryw, mae ystafelloedd dosbarth dros dro yn Y Meads wedi bod yn amhrisiadwy. Fodd bynnag, cydnabyddir, yn y tymor hwy, y dylai disgyblion allu cael amgylchedd addysgu mwy parhaol, ac yn y cyd-destun hwn bydd angen buddsoddiad cyfalaf er mwyn ychwanegu mwy o gapasiti.
Dylai unrhyw gynnig ystyried cyfleusterau chwaraeon, dysgu yn yr awyr agored, llwybrau diogel i ysgolion, darpariaeth gymunedol a chyfleuster adnoddau dysgu yn yr ysgol i ddisgyblion ag ADY.	Mae buddsoddiad mewn ysgolion newydd bob amser yn ystyried y modd y gellir diwallu anghenion cymunedol fel rhan o broses datblygu'r ysgol. Fodd bynnag, dim ond pan fydd digon o gyfiawnhad yn seiliedig ar ddarpariaeth a chyfleusterau eraill yn yr ardal y gellir diwallu'r cyfryw anghenion.
Angen ystyried safleoedd gwahanol yn Aberdaugleddau.	Bydd yr holl opsiynau o ran safle posibl yn cael eu hystyried mewn perthynas â buddsoddi cyfalaf. Fodd bynnag, bydd angen gwneud hyn fel rhan o achos busnes manwl a bydd angen cyfiawnhad cadarn dros ddefnyddio safleoedd gwahanol.

### 5.3 Materion / Pryderon yn ymwneud ag Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis

#### Sylwadau cefnogol:

- Bydd yn mynd i'r afael â'r diffyg lleoedd meithrin yn ardal Aberdaugleddau
- Bydd yn annog rhieni i osod plant yn Ysgol Gatholig Sant Ffransis - gan gynyddu niferoedd disgyblion o bosibl, a lliniaru'r gorlenwi yn Ysgol Babanod Y Meads
- Bydd yn sicrhau parhad ac yn hwyluso trosglwyddo o'r cartref i'r ysgol, ac o addysg ran-amser i addysg lawn amser yn Ysgol Gatholig Sant Ffransis
- Yn arbennig o fuddiol i rieni sy'n chwilio am addysg yn seiliedig ar ffydd ar gyfer eu plant

#### Sylwadau/pryderon cyffredinol

- Mae angen mynedfa a lle parcio ar wahân ar gyfer Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis er mwyn gwella tagfeydd traffig a rhoi ei hunaniaeth ei hun i'r ysgol

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Angen ystyried llif traffig a pharcio fel rhan o unrhyw newidiadau.	Cydnabyddir y pryder hwn. Mae unrhyw ddatblygiad mewn perthynas ag ehangu adeiladau presennol neu adeilad newydd yn mynnu cynnal asesiad llawn o'r effaith ar drafndiaeth.

### 5.4 Materion a godwyd gan Estyn

Er y dangosir barn Estyn am y cynnig ym Mharagraff 4.2, gwneir nifer o sylwadau ategol.

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
Mae'r cynigiwr yn disgrifio'n glir beth yw manteision ac anfanteision disgwyliedig y cynnig. Mae'r rhain yn cynnwys y manteision y gall ysgol gynradd 3-11 newydd wella trefniadau pontio, effeithiolrwydd ariannol a mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r anfanteision yn cynnwys gwrthwynebiad gan y gymuned leol, dim gwelliant i adeiladau ysgol a materion capasiti yn y lle cyntaf. Mae'r manteision posibl o ehangu ystod oedran Ysgol	Ni fu llawer o wrthwynebiad i'r cynnig o blith y gymuned, gyda 69% o ymatebion yn nodi cefnogaeth i'r cynnig.  Ni fydd unrhyw welliant i adeiladau ysgol yn y tymor byr, a bydd ystafelloedd dosbarth dros dro yn parhau i gael eu defnyddio er mwyn diwallu anghenion. Fodd bynnag, gellir ystyried y cynnig fel ysgogwr i ddenu buddsoddiad

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
<p>Gatholig Sant Ffransis yn cynnwys trefniadau pontio gwell a niferoedd mwy. Mae'r anfanteision yn cynnwys yr effaith ar ddarparwyr eraill y blynyddoedd cynnar yn yr ardal a chynnydd mewn traffig. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi darparu unrhyw fanylion ynglŷn â sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r anfanteision hyn.</p>	<p>cyfalaf yn y dyfodol a fydd yn mynd i'r afael ag adeiladau ysgol a materion capasiti.</p> <p>Nid ystyrir y bydd y cynnig mewn perthynas ag Ysgol Sant Ffransis yn cael effaith fawr ar ddarparwyr eraill y blynyddoedd cynnar yn yr ardal. Bwriad y rhan hon o'r cynnig yw hybu'r boblogaeth disgyblion yn yr ysgol hon, gan felly leihau rywffaint o'r pwysau ar leoedd yn Y Meads.</p>
<p>Mae'r cynigiwr wedi darparu manylion am feddiannaeth a chapasiti yn y tair ysgol, ond nid yw wedi rhoi unrhyw sylwadau ar ba effaith a gaiff y cynnig ar ordanysgrifio a lleoedd dros ben. Ar hyn o bryd, mae gordanysgrifio yn ysgol Y Meads o 44 o ddisgyblion amser llawn, ac mae ynddi 33 o leoedd rhan-amser dros ben. Yn Ysgol Iau Aberdaugleddau, mae 14 o leoedd amser llawn dros ben, ac mae 32 o leoedd amser llawn dros ben yn ysgol Gatholig Sant Ffransis. Dengys rhagolygon disgyblion hyd at 2021 y bydd Ysgol Y Meads yn parhau i weld gordanysgrifio, ac y bydd gordanysgrifio yn Ysgol Iau Aberdaugleddau o 2019 ymlaen. Bydd meddiannaeth o ryw 80% yn Ysgol Gatholig Sant Ffransis o hyd. Mae'r cynigiwr wedi dweud 'bydd y gwednewidiad yn sgil uno ysgol fabanod ac ysgol iau ar wahân yn sicrhau y bydd y Cyngor yn gallu gweithredu'n gyflym pan ddaw cyfrannau pellach o gyllid cyfalaf ar gael'. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi darparu digon o eglurder ynghylch sut bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r materion hyn.</p>	<p>Cydnabyddir na all y cynnig fynd i'r afael yn llawn â'r materion yn ymwneud â chapasiti. Dim ond drwy fuddsoddiad cyfalaf y gellir cynyddu capasiti er mwyn darparu ar gyfer y nifer gynyddol o ddisgyblion yn Aberdaugleddau, a bwriedir cael mynediad i Fand B o Raglen Ysgolion 21<sup>ain</sup> Ganrif Llywodraeth Cymru at y diben hwn. Mae'r cynnig yn sicrhau, pan ddaw'r gyfran hon o gyllid ar gael yn 2019, y bydd y Cyngor yn gallu symud yn gyflym i gynyddu'r ysgol i'w chapasiti gofynnol.</p> <p>Fodd bynnag, yn y tymor byrrach, rhagwelir y bydd y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Ffransis yn cynnig y cyfle i leddfu rywffaint o'r pwysau ar leoedd yn Ysgol Y Meads.</p>
<p>Mae'r cynigiwr wedi darparu manylion adroddiadau arolygu Estyn, y categoreiddiad cenedlaethol a pherfformiad yn 2015 ar gyfer pob un o'r tair ysgol. Hefyd, darparwyd barnau'r</p>	<p>Mae'r Ddogfen Ymgynghori yn cynnwys y data perfformiad a oedd ar gael adeg cyhoeddi; roedd y data hwn yn ymwneud â 2015 ac fe'i cafwyd o'r wefan Fy Ysgol</p>

Pryderon / Sylwadau	Ymateb yr Awdurdod i Bryderon a Godwyd
<p>consortiwm lleol ar ddeilliannau/ darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgolion. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi darparu'r data diweddaraf sydd ar gael, h.y. y data perfformiad ar gyfer 2016, ac nid yw'r cynigiwr ychwaith wedi cynnwys unrhyw sylwadau perthnasol ar y data a ddarparwyd.</p>	<p>Leol.</p> <p>Cydnabyddir fod data 2016 ar gael erbyn hyn, ac fe'i atgynhychir fel <b>ATODIAD C</b> i'r ddogfen hon.</p> <p>Nid ystyrir bod angen darparu sylwadau ychwanegol ar y data hwn, yn enwedig pan fo barnau diweddar gan Estyn a bod barnau'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion rhanbarthol yn cael eu darparu'n fanwl. Hefyd, nid oes gofyniad am sylwadau felly wedi'i gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>
<p>Nid yw'n glir ychwaith pam mae'r cynigiwr ond wedi darparu data perfformiad disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim ar gyfer perfformiad o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Mae perfformiad yr holl ddisgyblion o ran dangosydd y Cyfnod Sylfaen yn dangos dirywiad nodedig mewn perfformiad yn ysgol babanod a meithrin Y Meads ac Ysgol Gatholig Sant Ffransis rhwng 2015 a 2016. Mae'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer yr holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dirywiad sylweddol mewn perfformiad yn Ysgol Aberdaugleddau, a dirywiad cymharol fach yn Ysgol Gatholig Sant Ffransis rhwng 2015 a 2016.</p>	<p>Mae barnau diweddaraf Estyn ar gyfer yr holl ysgolion sy'n debygol o gael eu heffeithio gan y cynnig wedi'u rhoi yn y Ddogfen Ymgynghori.</p> <p>Nid oes gofyniad am sylwadau ychwanegol wedi'i gynnwys yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion.</p>
<p>Mae'r cynigiwr hefyd yn darparu manylion ysgolion cyfagos eraill, gan gynnwys capasiti, rhagolygon niferoedd disgyblion a chanlyniadau arolygiadau Estyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw sylwadau perthnasol yn ymwneud â'r wybodaeth hon.</p>	



### **Ymateb Estyn i'r cynnig i ad-drefnu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn Aberdaugleddau**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

### **Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Penfro.

Y cynnig yw:

- cau Ysgol Fabanod a Meithrin The Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau a sefydlu ysgol newydd i blant 3 - 11 oed gan ddefnyddio dau safle presennol yr ysgolion; ac
- ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gatholig Sant Francis er mwyn derbyn disgyblion tair oed yn rhan-amser

### **Crynodeb/Casgliad**

Er bod yr ymgynghoriad yn brin o fanylion ar gyfer rhai agweddau, ar y cyfan mae'r cynigiwr wedi cyflwyno achos boddhaol o blaid y cynnig. Felly, ym marn Estyn, mae'r cynnig hwn o leiaf yn debygol o gynnal y safonau addysg bresennol yn yr ardal.

### **Disgrifiad a manteision**

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymwaith clir dros y cynnig. Mae'n cysylltu'n dda â pholisi'r cyngor o greu ysgolion cynradd pob oed, lle y bo'n bosibl. Yn ogystal, bydd ymestyn ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Francis yn galluogi'r Cyngor i ddarparu darpariaeth ffydd feithrin yn ardal Aberdaugleddau.

Mae'r cynigiwr yn disgrifio manteision ac anfanteision disgwylidig y cynnig yn glir. Mae'r rhain yn cynnwys y manteision y gall ysgol gynradd newydd 3-11 oed wella

trefniadau pontio, effeithiolrwydd ariannol a sicrhau mwy o hyblygrwydd wrth ddyrannu adnoddau. Mae'r anfanteision yn cynnwys gwrthwynebiad gan y gymuned leol, dim gwelliant cychwynnol i adeiladau'r ysgol a phroblemau o ran nifer y lleoedd. Mae manteision posibl ymestyn ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Francis yn cynnwys gwell trefniadau pontio a niferoedd uwch. Mae'r anfanteision yn cynnwys yr effaith ar ddarparwyr eraill y blynyddoedd cynnar yn yr ardal a chynnydd mewn traffig. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi darparu unrhyw fanylion ynghylch sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r anfanteision hyn.

Mae'r cynigiwr wedi nodi pedair risg sydd ynghlwm wrth y cynnig yn briodol. Mae'r rhain yn cynnwys y posibilrwydd y bydd safonau cyrhaeddiad yn disgyn a methu darparu'r nifer briodol o leoedd ysgol gynradd. Mae gwrthfesuerau'r cynigiwr i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn ymddangos yn rhesymol.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn briodol effaith y newidiadau ar drefniadau teithio ac wedi dod i'r casgliad rhesymol mai bach iawn o effaith, os o gwbl, a gaiff y cynnig ar gludiant.

Mae'r cynigiwr wedi darparu manylion am gyfraddau llenwi lleoedd a nifer y lleoedd yn y tair ysgol, ond nid yw wedi rhoi unrhyw sylwadau ar ba effaith gaiff y cynnig ar alw gormodol am leoedd a lleoedd dros ben. Ar hyn o bryd, mae 44 disgybl amser llawn yn ormod gan ysgol The Meads ac mae ganddi 33 lle rhan-amser dros ben. Mae gan Ysgol Iau Aberdaugleddau 14 lle amser llawn dros ben ac mae gan Ysgol Gatholig Sant Francis 32 lle amser llawn dros ben. Mae'r rhagolygon ar gyfer nifer y disgyblion hyd at 2021 yn dangos y bydd mwy o alw am leoedd yn ysgol The Meads na lleoedd sydd ar gael ac y bydd mwy o alw na lleoedd yn Ysgol Iau Aberdaugleddau o 2019 ymlaen. Bydd cyfradd llenwi lleoedd Ysgol Gatholig Sant Francis yn parhau tua 80%. Mae'r cynigiwr wedi datgan 'y bydd y trawsnewid sy'n deillio o uno'r ysgolion babanod ac iau ar wahân yn sicrhau y bydd y Cyngor yn gallu gweithredu'n gyflym pan ddaw cyfrannau pellach o arian cyfalaf ar gael'. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi dweud yn ddigon clir sut bydd y cynnig yn mynd i'r afael â'r materion hyn.

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried effaith y cynnig ar addysg cyfrwng Cymraeg yn dda. Mae ysgolion yn Hwlfordd a Chrymlych yn ateb y galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr yn cydnabod nad oes darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Aberdaugleddau a daeth asesiad i'r casgliad nad oedd angen darpariaeth Gymraeg ychwanegol. Mae'r cynigiwr o'r fam resymol nad oes effaith ar y Gymraeg yn deillio o'r cynnig hwn.

## Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr wedi ystyried effaith yn addas y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth, a'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth.

O ran Ysgol Fabanod a Meithrin The Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau, mae'r cynigiwr yn dod i'r casgliad rhesymol y bydd y cynnig yn creu tîm mwy o athrawon a staff cymorth o'r ysgolion presennol i alluogi'r ysgol i fodloni anghenion disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen ac yng nghyfnod allweddol 2. Gallai hyn arwain at gyfleoedd i ymestyn dysgu disgyblion ymhellach y tu hwnt i gyfyngiadau presennol y cyfnodau allweddol ar wahân mewn dau strwythur ysgol ar wahân. Yn ogystal, gallai'r cynnig arwain at fwy o gysondeb yn ansawdd yr addysgu a'r dysgu a gwell arweinyddiaeth a rheolaeth trwy fanteisio ar y gronfa o lywodraethwyr a thimau rheoli yn y ddwy ysgol.

O ran Ysgol Gatholig Sant Francis, mae'r cynigiwr yn cynnig manteision dilys sy'n cynnwys y dewis o addysg Gatholig o oedran iau ac y bydd disgyblion yn aros yn yr un ysgol o dair oed ymlaen.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi manylion adroddiadau arolygu Estyn, categoreiddiad cenedlaethol a pherfformiad yn 2015 ar gyfer y tair ysgol. Yn ogystal, darparwyd barn y consortiwm lleol ar ddeilliannau/darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth yr ysgol. Fodd bynnag, nid yw'r cynigiwr wedi cynnwys y data diweddaraf sydd ar gael, h.y. y data perfformiad ar gyfer 2016 ac nid yw ychwaith wedi cynnwys unrhyw sylwadau perthnasol ar y data a ddarperir.

Hefyd, nid yw'n glir pam mae'r cynigiwr wedi rhoi'r data perfformiad ar gyfer disgyblion sydd â hawl i gael pryddau ysgol am ddim yn unig ar gyfer perfformiad yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen a'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2. Mae perfformiad pob disgybl yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen yn dangos dirywiad amlwg mewn perfformiad yn Ysgol Fabanod a Meithrin The Meads ac yn Ysgol Gatholig Sant Francis rhwng 2015 a 2016. Mae'r dangosydd pwnc craidd ar gyfer pob disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn dangos dirywiad sylweddol mewn perfformiad yn Ysgol Aberdaugleddau a dirywiad cymharol fach yn Ysgol Gatholig Sant Francis rhwng 2015 a 2016.

Hefyd, mae'r cynigiwr wedi rhoi manylion ysgolion cyfagos, gan gynnwys nifer eu lleoedd, rhagolygon ynghylch nifer y disgyblion a chanlyniadau arolygiadau Estyn. Fodd bynnag, nid oes sylwadau perthnasol mewn perthynas â'r wybodaeth hon.


Mae'r cynigiwr wedi cynnal asesiad addas o'r effaith ar gydraddoldeb. Ymddengys fod hwn yn dangos na fydd effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed. Hefyd, mae'r cynigiwr yn datgan y caiff y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol ei chryfhau i gynnig cymorth mwy pwrpasol mewn amrywiaeth ehangach o feysydd arbenigol, wrth i anghenion ddod i'r amlwg.



## Dyfodol Darpariaeth Addysg Gynradd yn Ardal Aberdaugleddau

### Gohebiaeth a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol

Cyf.	Sylwadau
1	<p>Rwy'n cytuno'n gryf â therfynu Ysgol Babanod a Meithrin Y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau a sefydlu ysgol 3-11 newydd, ond rwy'n credu'n gryf fod angen ysgol gymunedol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol i gynnwys y gymuned gyfan a darparu man dysgu digonol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae adeilad Ysgol Babanod y Meads yn llawn, ac mae disgyblion yn cael eu haddysgu mewn tri portacabin ychwanegol. Nid hon yw'r ddarpariaeth y mae ein plant yn ei haeddu. Mae plant y dalgylch hwn yn haeddu'r gorau.</p>
2	<p>Mae Ysgol Babanod Y Meads yn orlawn ac yn bendant mae angen ei datgymalu a'i huno i greu sefydliad 3-11 mwy.</p> <p>Mae'n rhaid i Ysgol Y Meads uno ag Ysgol Iau Aberdaugleddau.</p>
4	<p>Dim ond un ysgol babanod ac un ysgol iau sydd gan Aberdaugleddau, ac mae gan Hwlfordd nifer ohonynt. Mae Aberdaugleddau yn haeddu ysgol newydd wedi'i hadeiladu ar un safle, nid yr ateb ail orau ac ychwanegu at yr adeiladau presennol! Mae si y bydd ysgolion cynradd Hwlfordd yn cael cyllid i adeiladu ysgolion newydd cyn Aberdaugleddau. Nid yw hynny'n dderbyniol!</p>
5	<p>Rwy'n pryderu ynglŷn â maint ysgol 800+, a chredaf y dylai opsiwn 3 y cynnig, sef adeiladu dwy ysgol cyfrwng Saesneg (400+) fod wedi'i gadw fel opsiwn. Cafodd Opsiwn 3 ei ddiystyru oherwydd; 1) Ni fyddai'n cynyddu capasiti 2) Gallai achosi cystadleuaeth. 3) Byddai'n rhaid i ddwy ysgol 3 i 11 wasanaethu dau ddalgylch. Pe bai'r opsiwn hwn wedi'i gadw a bod cyllid ar gael, yna: A) Gellir cyflawni'r capasiti angenrheidiol drwy wneud yr ysgolion y maint iawn. B) Credaf y byddai'r rhan fwyaf o rieni yn dewis derbyn cystadleuaeth yn hytrach na chael un ysgol 800+, rhwch y dewis iddynt o leiaf. C) Nid yw'n ymddangos bod dalgylchoedd yn effeithio ar yr ysgolion yn Hwlfordd. Beth bynnag yw'r penderfyniad, oni bai bod cyllid digonol yn cael ei warantu gan yr Awdurdod a Llywodraeth Cymru, dylid rhoi'r gorau i'r broses hyd nes bod yr arian ar gael. Mae'r ysgol 3-11 arfaethedig yn fwy o lawer nag unrhyw beth yn Sir Benfro, a rhaid defnyddio safle cyfan yr Ysgol Iau a Y Meads i ddarparu'r seilwaith i alluogi'r ysgol i weithredu h.y. mynediad, parcio ac ati. Os ydym yn mynd i'w wneud, mae angen iddo gael ei wneud yn iawn gan ystyried yr effaith ar y gymuned. Pe bai tir dros ben yn cael ei werthu, rhaid iddo beidio â niweidio'r cynllun cyffredinol a dylai fod yn ystyriaeth eilaidd nid yn brif ystyriaeth.</p>
7	<p>Rwy'n pryderu braidd ynglŷn â'r iaith a ddefnyddir yn y cynnig, yn benodol 'ar y ddau safle presennol'. Y cynnig rwyf yn ei gefnogi yw adeilad/au newydd sy'n darparu cyfleusterau i blant 3-11 oed, nid estyniad i'r adeiladau presennol.</p> <p>Credaf fod dau safle'n fanteisiol am ei fod yn rhoi profiad i ddisgyblion o 'symud' ymlaen i'r adran iau, felly nid yw symud ymlaen i'r ysgol gyfun</p>

	mor frawychus am eu bod eisoes wedi symud ar ddiwedd blwyddyn 2.
8	Rwyf newydd adael Ysgol Iau Aberdaugleddau ac rwyf yn Ysgol Gyfun Aberdaugleddau nawr. Rwy'n teimlo fod yr hyn sydd gennym yn Aberdaugleddau nawr yn dda oherwydd pan fyddwch chi ym Mlwyddyn 2, mae'r breintiau gennych o fod yr hynaf yn yr ysgol a chael cyngerdd gadael, ac yna rydych yn cael y profiad o symud i fyny i'r adran Iau, sy'n debyg o ran maint cyn i chi symud i'r Ysgol Gyfun, sy'n ysgol fwy o lawer. Mae bod yr ieuengaf eto ym Mlwyddyn 3 yn rhoi ymdeimlad i chi o sut beth fydd bod ym Mlwyddyn 7. Roeddwn i hefyd yn hoffi cael Pennaeth gwahanol yn yr Ysgol Iau am ei fod yn teimlo fel ysgol newydd. Rwy'n hoffi 2 ysgol ar wahân ar ddau safle gwahanol, ond os oes rhaid cael un corff llywodraethol ac un Pennaeth, yna cael 2 safle sydd orau i'r plant yn bendant.
10	Rwy'n pryderu, pe bai'r holl ysgolion yn uno, y bydd yr ysgolion yn mynd yn rhy fawr o lawer, a bydd cymaint o wahaniaeth yn ystod oedran y myfyrwyr fel bod y gofal a'r sylw y mae'r disgyblion yn ei gael yn awr yn cael ei gollu!
11	Rwy'n teimlo y byddai angen cael dirprwy benaethiaid ar bob safle, nad ydynt mewn swydd addysgu. Fy rheswm am ddweud hyn yw, yn absenoldeb y pennaeth a all fod ar y naill safle neu'r llall, byddent yn tarfu ar wersi drwy gael eu galw allan i ddelio â materion. Gyda'r nifer o blant ar bob safle, gallai hyn ddigwydd yn amlach nag mewn ysgolion llai a byddai'n effeithio ar ddysgu'r plant.  Rhaid darparu adeiladau addas digonol i blant Aberdaugleddau. Mae derbyn addysg mewn ystafelloedd dosbarth symudol yn wael. Mae nifer y plant a'r gorgrynhoi ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol yn anniogel ar hyn o bryd gyda'r adeiladau presennol, ac mae mynediad gwael i'r ysgolion.
12	Mae'r adeiladau yn anaddas ar sail nifer y plant. Mae mynediad gwael i'r ysgolion ar y safleoedd presennol (Yn enwedig yr Ysgol Iau)  Dylid adeiladu ysgol ar safle addas gan ddarparu mynediad diogel i ddisgyblion... Dylid adeiladu ysgol sy'n ddigon mawr i adlewyrchu nifer y disgyblion ynddi (mae neuadd yr ysgol yn yr Ysgol Iau yn orlawn adeg gwasanaethau)... Dylid gwella ac ehangu'r ysgolion presennol i ddarparu'n ddiogel ar gyfer nifer y plant.... STOPIWCH roi lleoedd i rai y tu allan i'r dalgylch pan fo gordanysgrifio!!!! Mae'n dal i ddigwydd nawr!!
16	Dylai unrhyw gynnydd ystyried cyfleusterau chwaraeon a llwybrau diogel i gerdded neu feicio i'r ysgol.
18	Mae angen adeilad newydd i ddarparu ar gyfer disgyblion oed meithrin i Flwyddyn 6 i wasanaethau'r plant a'r gymuned. Mae dysgu yn yr awyr agored yn faes pwysig y mae angen ei ystyried
19	Mae'n rhaid mai'r cam mwyaf cadarnhaol i addysg Aberdaugleddau yw dod â'r ddwy ysgol ynghyd a darparu cyfleusterau modern i fodloni anghenion addysgol modern.

20	Mae'n hen bryd cael darpariaeth feithrin yn Ysgol Sant Ffransis. Byddai mynedfa ar wahân i'r ysgol yn gwella diogelwch hefyd
21	 (golygwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon - nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau gael eu cyhoeddi)
23	Mae'n hanfodol fod CSP yn cymryd y cyfle hwn i wneud dyfodol darpariaeth addysg gynradd yn Aberdaugleddau yn sicr a chynaliadwy. Gwnaed camgymeriadau wrth gau un ysgol babanod rai blynyddoedd yn ôl, ac mae hyn nawr yn cyfrannu at y niferoedd eithriadol uchel o ddisgyblion a'r gorlenwi ar safle Y Meads yn arbennig. Byddai meithrinfa yn Sant Ffransis yn ychwanegu at y cyfle hefyd i liniaru'r gorlenwi, ac i rieni sydd am addysg seiliedig ar ffydd ar gyfer eu plentyn, byddai'n darparu cychwyn hwylus i'r ysgol yn hytrach na gorfod dewis lleoliad cyn-ysgol. Ar ôl gorfod helpu plentyn i ymgartrefu mewn un lleoliad cyn-ysgol ac yna yn Ysgol Sant Ffransis eto, rwy'n teimlo y bydd meithrinfa yn gwneud y trosglwyddo o'r cartref i'r ysgol yn haws o lawer.
24	Mae plant yn dysgu ac yn perfformio'n well yn academaidd mewn dosbarthiadau llai ac ysgolion llai. Mae ysgolion mwy yn gorlethu disgyblion, ac mae bwlio'n fwy amlwg. Mae angen i blant deimlo'n sicr, yn ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u bod yn perthyn. Ni ellir cyflawni hyn mewn ysgolion mwy lle mae'n amhosibl i staff adnabod pob un o'u disgyblion, eu galluoedd a'u dewisiadau. Mae tablau cynghrair yn dangos ar hyn o bryd mai'r ysgolion llai yw'r rhain sy'n cyflawni orau yn y sir, felly ddylem ni ddim difetha hyn a rhoi'r cyfleoedd gorau i'r genhedlaeth nesaf i gael addysg o ansawdd da.  Ail-agorwch Ysgol Mount a oedd yn darparu amgylchedd dysgu rhagorol i'r Cyfnod Sylfaen er mwyn datrys mater gorlenwi yn Ysgol Y Meads.  Ail-agorwch Ysgol Mount a oedd yn darparu addysg ragorol i'r Cyfnod Sylfaen ac ymestyn yr ystod oedran ar gyfer Dechrau'n Deg am fod y dalgylch yn un difreintiedig, a sefydlwch ysgol uwchradd Gatholig neu ysgol uwchradd yr Eglwys yng Nghymru i'r ysgolion Catholig neu Eglwysig/Cristnogol fwydo iddi.
26	Rwy'n credu y bydd derbyn plant tair oed yn rhan-amser i Ysgol Sant Ffransis yn annog rhieni i roi eu plant yn Ysgol Sant Ffransis. Ar hyn o bryd, mae'n colli darpar fyfyrwyr i Ysgol Babanod y Meads am eu bod yn cymryd plant oedran iau.
27	* Cyllid cyfrannol ar gyfer pob ysgol (Sant Ffransis a'r ysgol newydd) * Digon o ofod a lle i ehangu ar y ddau safle * Mynedfa a lle parcio pwrpasol ar wahân ar gyfer y ddwy ysgol
28	Byddai dosbarth meithrin yn Ysgol Sant Ffransis yn helpu i gynyddu'r niferoedd, oherwydd ar hyn o bryd mae rhieni sydd eisiau iddynt fynychu Ysgol Sant Ffransis yn eu dechrau mewn ysgolion eraill ac yna'n amharod i'w symud.
29	Mae angen mynedfa ar Sant Ffransis am resymau diogelwch, a meithrinfa.

30	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.
31	Dylai fod meithrinfa yn Ysgol Sant Ffransis. Byddai ei mynedfa ei hun ar hyd lôn yn fwy diogel.
32	Mae angen ei mynedfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis am resymau diogelwch, ac mae angen taer am feithrinfa.
33	Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn yn gryf, byddai'n fuddiol eithriadol i rieni sydd am anfon eu plentyn i ysgol seiliedig ar ffydd.
34	 <i>(golygwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon - nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau gael eu cyhoeddi)</i>
35	Byddai Meithrinfa Sant Ffransis yn helpu i ddatblygu'r ysgol a chynyddu'r niferoedd ar gyfer y dyfodol. Hoffwn weld y safle'n cael ei wella o ran diogelwch, a hefyd o ran darparu ei hunaniaeth ei hun i'r ysgol.
37	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.
38	 <i>(golygwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon - nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau gael eu cyhoeddi)</i>
39	Mae angen ei mynedfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis am resymau diogelwch, ac mae angen taer am feithrinfa.
40	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.
41	Mae angen ei mynedfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis am resymau diogelwch, ac mae angen taer am feithrinfa.
42	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.
43	Cefnogaeth wych i feithrinfa ac ysgol gynradd, felly bydd y plant yn elwa mwy!
44	* Cyllid cyfrannol yn cael ei roi i Sant Ffransis a'r ysgol newydd * Digon o le i Sant Ffransis a'r ysgol newydd allu ehangu ymhellach yn y dyfodol * Mynedfa a lle parcio pwrpasol ar gyfer Ysgol Sant Ffransis a'r ysgol newydd
45	Byddai Meithrinfa Sant Ffransis yn helpu i ddatblygu'r ysgol a chynyddu'r niferoedd ar gyfer y dyfodol. Hoffwn weld y safle'n cael ei wella.

46	Dylai cyflwyno meithrinfa i Ysgol Sant Ffransis helpu gyda'r gorlenwi yn Ysgol Y Meads. Mae prinder lleoedd meithrin i drigolion Aberdaugleddau. Yn amlwg, mae angen mwy o le yn Y Meads a dylid mynd i'r afael â materion gorlenwi yno.
47	Rwy'n cefnogi'n gryf cyflwyno meithrinfa yn Ysgol Sant Ffransis. Mae diffyg lleoedd meithrin yn Aberdaugleddau. Yn enwedig am resymau iechyd a diogelwch, hoffwn weld lôn/mynedfa ar wahân ar gyfer Ysgol Sant Ffransis.
48	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.
49	Rwy'n cefnogi'r cynnig yn gryf ac yn teimlo bod yr ysgol yn gwbl barod, ac yn meddu ar yr adnoddau i ymestyn yr ystod oedran ar gyfer addysg Gatholig (Sant Ffransis).
50	Mae'n hen bryd cael meithrinfa yn Ysgol Sant Ffransis. Penderfynodd llawer o rieni i anfon eu plant i Ysgol Sant Ffransis ond oherwydd gofal plant, maent weithiau yn mynd i Ysgol Y Meads i gael gofal plant.
51	Rwy'n teimlo bod meithrinfa yn hanfodol i Ysgol Sant Ffransis. Mae diffyg lleoedd meithrin yn Aberdaugleddau a byddai hyn yn llenwi bwch. Hefyd, mae'n darparu addysg barhaus yn hytrach na newid yn 4 oed. Rwy'n credu hefyd fod angen ei mynedfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis er mwyn gwahaniaethu rhyngddi ac Ysgol Y Meads.
52	Fel rhiant i blentyn cyn oed ysgol, rwy'n teimlo'n gryf fod angen ei meithrinfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis. Nid oes llawer o feithrinfeydd yma i blant 3 oed eu mynychu, a byddai'n beth da iawn pe bai Ysgol Sant Ffransis yn gallu cael ei meithrinfa ei hun ar gyfer y plant.
53	Rwy'n credu bod y feithrinfa yn ychwanegiad hanfodol i ysgol Sant Ffransis. Byddai'n fuddiol i addysg barhaus y plant.
54	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis. Mae diffyg lleoedd meithrin yn Aberdaugleddau a byddai hyn yn llenwi'r bwch hwn. Hefyd, bydd yn fuddiol peidio â gorfod newid ysgolion yn 4 oed. Yn ychwanegol at y feithrinfa, rwy'n credu y dylai Ysgol Sant Ffransis gael eu lôn a'i mynedfa ei hun. Byddai hyn yn annog mwy o bobl i ddod i'r ysgol, a fyddai'n lliniaru'r gorlenwi yn Ysgol Y Meads. Byddai'n gwella tagfeydd traffig hefyd.
55	Rwy'n teimlo y byddai Ysgol Sant Ffransis yn elwa o gael meithrinfa, gan nad oes digon o feithrinfeydd na chyfleusterau yn Aberdaugleddau ar hyn o bryd.
56	Mae angen meithrinfa ar Ysgol Sant Ffransis, a'i mynedfa ei hun am resymau diogelwch.



57	Mae angen meithrinfa, a hefyd ei lôn/mynedfa ei hun ar Ysgol Sant Ffransis. Byddai hyn yn helpu i ddatrys problemau gorlenwi yn Ysgol Y Meads.
58	Mae angen mynedfa ar Ysgol Sant Ffransis am resymau diogelwch, a meithrinfa.
59	Y cyfan sydd ei angen, mae'n debyg, yw ehangu'r trefniadau presennol ychydig. Mae'n ymddangos mai gorymateb yw ad-drefnu'r ysgolion.
60	Bydd yr ysgol arfaethedig yn rhy fawr, felly bydd dosbarthiadau yn cynnwys nifer fawr o blant.
61	Nid uno ysgolion i greu ysgolion mwy yw'r opsiwn gorau bob amser ar gyfer addysg plant.
62	Mae angen mynedfa ar Ysgol Sant Ffransis am resymau diogelwch, a meithrinfa.
63	Rwy'n cefnogi'n gryf y cynnig i ymestyn yr ystod oedran yn Ysgol Sant Ffransis. I rieni sy'n dewis addysg yn seiliedig ar ffydd i'w plant, byddai hyn yn fuddiol eithriadol - byddai'n darparu sylfeini sicr i ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen, yn hwyluso pontio i'r dosbarth Derbyn amser llawn ac yn lleddfu pryderon rhieni plant ifanc sydd ar fin dechrau'r ysgol - gall eu plentyn fynd yn syth i mewn i awyrgylch teuluol gofalgar Ysgol Sant Ffransis o 3 oed.
66	Rwy'n cefnogi'n gryf y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gynradd Gatholig Sant Ffransis er mwyn derbyn plant 3 oed yn rhan-amser.
68	Rwy'n credu y bydd cael plant meithrin rhan-amser wir yn gwella ein hysgol, sef Ysgol Sant Ffransis. Bydd yn sicrhau niferoedd ein hysgol yn y dyfodol.
69	Fel Cristion rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn i gal ysgol ffydd Gristnogol yn Aberdaugleddau, a bydd ei llwyddiant yn dibynnu'n fawr ar gael darpariaeth feithrin.
70	Dylai Cyngor Sir Penfro cynnig addysg trwy'r gyfrwng Cymraeg yn Aberdaugleddau, mae e'n hen amser iddyn nhw cael ysgol cyfrwng Cymraeg yn yr ardal a bydd llawer o rhieni Aberdaugleddau yn cefnogi ysgol Cymraeg.
74	Mae angen buddsoddiad mawr ar Aberdaugleddau i adeiladu ysgol gynradd sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif. Nid yw'r adeiladau ysgol presennol yn ddigon mawr ac nid oes cyfleusterau modern yno. Mae'r fynedfa a'r lle parcio yn broblem i'r ddwy ysgol. Rwy'n cefnogi datblygu ysgol gynradd newydd gan mai dyma yw'r arfer gorau yn addysgol.
75	Byddem wrth fy modd yn gweld uned AAA yn yr ysgol
77	Yn bersonol, rwy'n teimlo ei bod yn hen bryd. Mae hyn ar waith gan y rhan fwyaf o ysgolion ledled y DU yn barod.

78	<p>(golygwyd y sylwadau at ddibenion y ddogfen hon - nid yw'r ymatebydd am i'w sylwadau gael eu cyhoeddi)</p>
79	Bydd yn braf i'r plant gael ysgol newydd ac offer gwell.
80	Rwy'n credu y bydd yn syniad da cael 1 ysgol newydd ar gyfer Aberdaugleddau.
81	Mae'r ysgolion yn iawn fel y maent. Nid wyf yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â fy mhientyn 3 oed yn cymysgu â phlant 11 oed.
82	<p>Mae cael ysgol pob oed yn bwysig, ac o na fyddai ar gael pan oedd fy mhlant i yma. Mae'r ddwy ysgol yn gweithio'n agos â'i gilydd, felly dylai dod â'r ysgolion ynghyd fod yn ddatblygiad naturiol.</p> <p>Os cedwir dau safle, byddai'n fuddiol darparu cyfleusterau newydd i'w rhannu fel bod yr ysgol newydd ac Ysgol Sant Ffransis a'r gymuned yn gallu eu defnyddio. Mae angen ystyried llif y traffig ac anghenion parcio o ddirif fel rhan o ba opsiwn bynnag y penderfynir arno.</p>
83	Neuadd fwy
84	A fydd darpariaeth ar gyfer cymorth AAA ychwanegol / cymorth cymunedol (e.e. ystafell â thegell ac ati ar gyfer cyfarfodydd grwpiau teulu / craidd).
85	<p>Mae ardal Aberdaugleddau wedi tyfu'n fawr yn y 10 mlynedd diwethaf, ac erbyn hyn mae angen lle mwy ar gyfer yr holl blant a'r staff.</p> <p>Ysgolion mwy gydag ardal chwarae dan do pan na fydd modd i'r plant fynd allan. Mae'r ystafelloedd dosbarth yn teimlo'n fach gyda'r nifer o blant sydd yno.</p>
86	Dyma'r ffordd ymlaen. Ar yr amod bod cyfleusterau rhagorol gan yr ysgol, a bod ardaloedd y babanod a'r plant iau ar wahân, rwy'n credu y bydd yn beth da i'r dref ac i'r plant gael ysgol gymunedol newydd.
87	<p>Rwy'n teimlo bod angen diweddarau'r ysgolion, cael adeilad modern heb portacabins. Rwy'n teimlo y bydd dod â'r ysgolion babanod a phlant iau at ei gilydd yn sicrhau mwy o gysondeb yn y rheoli/cyflwyno a'r pontio rhwng grwpiau oedran/blwyddyn. Hefyd, gall wella effeithlonrwydd/rhannu adnoddau.</p> <p>Rwy'n teimlo bod cael 800 o ddisgyblion yn yr ystod oedran hwnnw mewn un adeilad/ar un safle yn ormod, yn enwedig i'r rhai bach sy'n dechrau'r ysgol. Hefyd, materion gollwng plant/codi plant/parcio – logisteg ble fyddai'r ysgol newydd wedi'i lleoli, a sut byddai'n cael ei gweithredu – chwarae/cinio/defnyddio'r neuadd - byddai angen mwy o wybodaeth i esbonio hyn i gyd cyn y byddwn (fel rhiant) yn cefnogi'r opsiwn arall. Rwy'n gwybod bod achosion eraill o uno ysgolion wedi gweithio'n dda, ond roedd llai o ddisgyblion yn un o'r ysgolion ac roedd</p>

	mwy o le/adeiladau gwell gan rai ohonynt. Rwy'n credu mai 2 safle – yn agos, rhannu adnoddau, adeiladau gwell, mwy o gysondeb/effeithlonrwydd yw'r opsiwn gorau.
88	Fy mhrif bryder yw safonau'r addysgu a dysgu - darparu'r cyfleoedd gorau posibl i'r disgyblion gyflawni eu potensial mwyaf. Rwy'n credu, er y gall dysgu ddigwydd yn unrhyw le, mae hefyd yn bwysig i'r amgylchedd fod yn briodol. Felly, byddai adeiladau a chyfleusterau newydd i'w croesawu'n fawr yn y dyfodol er mwyn gwella'r daith ddysgu. Mae cyllid o'r pwys pennaf hefyd felly, ac adeilad newydd fyddai'n fwyaf buddiol, nid yn unig i'r disgyblion, ond i'r staff, rhieni a'r gymuned leol.
89	* Mae angen i'r addysgu a'r dysgu fod yn flaenllaw i'r cynnig. * Byddai adeiladu o'r newydd, gyda safleoedd babanod a phlant iau, o fudd i'r uchod. * Nid y disgyblion yn unig fydda'i elwa, ond y rhieni, staff a'r gymuned leol hefyd.
90	Nid ydym yn cytuno gydag un ysgol fawr ar gyfer plant 3-11 oed hyd yn oed os yw ar draws dau safle, ond os byddai'n gwella cyfleusterau i'r plant, byddai'n ei wneud yn hawdd i'w dderbyn. Rydym yn hoff o'r modd mae wedi'i sefydlu, ac nid ymddengys ei fod wedi effeithio ar blant ar hyd y blynyddoedd o'i gael fel hyn. Rydym yn cefnogi cynnig Sant Ffransis gan y byddai hyn yn lleddfu llawer o bwysau ar Ysgol Y Meads.  Ysgol o'r radd flaenaf yn y dyfodol.
91	Fe fues i'n mynychu ysgol 3-11 oed, felly byddwn i'n hapus i'r ddwy ysgol uno. Fodd bynnag, rwy'n teimlo bod y ddau safle'n anaddas i blant, gan fod ysgol Y Meads a'r ysgol iau yn hen adeiladau. Felly, hoffwn weld y plant yn ein cymuned yn cael adeilad newydd sy'n addas i'r diben, a chael y dysgu gorau posibl.
92	Rwy'n credu fod ysgol gynradd â 800+ o blant yn rhy fawr o lawer ac yn gwbl ddiangen, gan y byddai ysgol o'r maint hwn yn anochel yn parhau i weithio â dymeg ranedig yr adran babanod/plant iau, gan y byddai'n rhy fawr i weithio mewn unrhyw ffordd arall. Byddai'n rhaid cael ierdydd chwarae, neuaddau, amseroedd cinio, gwasanaethau ar wahân, felly ni fyddai fawr o bwynt i'r cyfan fod ar un safle; fodd bynnag, nid wyf yn credu y byddai uno ac aros ar ddau safle yn opsiwn da ychwaith, oherwydd mai'r cyfan y byddai hynny'n ei gyflawni yw Pennaeth yn cael ei hymestyn ar draws dwy ganolfan fawr. Yn wir, dylai'r ysgolion fod yn uno nid yn cael eu rhannu yn ddwy ysgol gynradd, gan y byddai dwy ysgol gynradd â 400+ o blant yn dal yn fawr iawn.  Dwy ysgol gynradd yn cynnwys disgyblion o Y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau (gydag Ysgol Sant Ffransis yn aros fel y mae).
93	Byddwn i wrth fy modd yn gweld ysgol newydd wedi'i hadlinio'n agosach â chanolfan hamdden Y Meads, yn rhannu adnoddau ac ati. Mae chwaraeon yn ffordd wych i blant ragori heb rwystrau cost ac ati. Mae chwaraeon yn gyfrwng gwych i adeiladu cymuned hefyd, felly byddai cael y plant i gyfranogi mewn oed cynnar yn cael buddion lluosog yn y tymor hir. Ysgol wedi'i hadeiladu o'r newydd yn llwyr hyd yn oed. Mae angen i fynediad i'r ysgolion gael ystyriaeth yn y sefyllfa bresennol oherwydd nifer y plant, ac efallai'r nifer fwy hyd yn oes o geir sydd o

	<p>gwmpas nawr. Efallai y gallai Ysgol Sant Ffransis gael ei lôn mynediad ei hun i helpu lleddfu hyn.</p> <p>Ysgol newydd ar safle canolfan hamdden Y Meads, gyda mwy o gyfleusterau chwaraeon yn cael eu hychwanegu, trac rhedeg ac ati. Adeilad ysgol 3-11 newydd yn cael ei adeiladu ar safle Y Meads a Sant Ffransis, gyda Sant Ffransis yn symud i adeilad yr ysgol iau, y ddwy ysgol yn rhannu cae pêl-droed rhyngddynt. Cydweithredu rhwng Sant Ffransis a'r ysgol gymuned, gan rannu mwy o adnoddau - labordy TG, canolfan gerddoriaeth, cyfleusterau chwaraeon ac ati.</p>
94	Mae plant Aberdaugleddau yn haeddu cael yr addysg orau bosibl y gellir darparu ar eu cyfer. Bydd ysgol pob oed 3-11 yn sicrhau parhad ac amgylchedd saff a diogel i'r plant gael eu haddysg.
95	Rwy'n credu mai hyn yw'r ateb gorau i gefnogi addysg y plant. Mae angen cyfleuster ysgol arnynt a fydd yn cefnogi'r gymuned leol ac yn darparu amgylchedd dysgu priodol i'r plant, gyda mynediad i ystafelloedd dosbarth eang â chyfarpar da ynddynt, a manau dysgu sydd â'r dechnoleg i gefnogi plant a fydd wedi'u paratoi at y dyfodol.
98	Rwy'n dal i hoffi'r syniad o gael ysgol babanod yna ysgol plant iau, gan fod y pontio hwn yn dda i'r plant. Os bydd Ysgol Y Meads ac Ysgol Iau Aberdaugleddau yn uno, yna mae angen gwneud hyn mewn un ysgol wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, gyda chyfleusterau diweddar, ac ysgol sy'n ddigon mawr i'r holl blant (heb unrhyw ystafelloedd dosbarth portacabin), a'r adnoddau/ystafelloedd ar gyfer yr holl raglenni penodol y mae angen eu cyflawni yn yr ysgol (e.e. lleferydd ac iaith, ac at ddefnydd asiantaethau allanol ac ati).
AG1	<p>Yn y ddogfen, cafodd opsiwn 3 o'r opsiynau amgen ei ddiystyru ar y sail;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fyddai'n cynyddu capasiti.</li> <li>• Byddai'n achosi cystadleuaeth.</li> <li>• Byddai'n rhaid i ddwy ysgol gymuned 3 i 11 wasanaethu dau ddalgylch.</li> </ul> <p>Pe bai'r opsiwn hwn wedi aros, a fyddai cyllid wedi bod ar gael i adeiladu dwy ysgol newydd ar gyfer 400 o ddisgyblion. Os oes cyllid ar gael ar gyfer yr opsiwn hwn yna;</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellir cyflawni'r capasiti angenrheidiol.</li> <li>• Credaf y byddai'r rhan fwyaf o rieni yn dewis derbyn cystadleuaeth yn hytrach na chael un ysgol 800+.</li> </ul>

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gellid adeiladu'r ysgolion mewn ardaloedd gwahanol o'r dref felly gellid addasu'r dalgylchoedd.</li> </ul> <p>Manteision</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Lleihau traffig yn ardaloedd yr ysgolion presennol.</li> <li>• Cystadleuaeth</li> </ul>
AG2	<p>Mae'r ddau Gorff Llywodraethol wedi cyfarfod ar wahân ac wedi cynnal cyfarfod ar y cyd, ac yn hwnnw y cytunwyd ar yr ymateb hwn ar y cyd i'r cynnig ynglŷn â dyfodol y ddarpariaeth addysg gynradd yn Aberdaugleddau.</p> <p>Codir pryder ynglŷn â'r angen i fynd i'r afael â'r gorlenwi presennol yn Ysgol Y Meads a'r tebygolrwydd y bydd y gorlenwi hwn yn symud ymlaen i'r Ysgol Iau. Mae angen rhoi blaenoriaeth i fynd i'r afael â'r mater hwn, ac ni ellir aros am i benderfyniad gael ei wneud yn y dyfodol ynglŷn â chyllid cyfalaf ar gyfer un ysgol newydd.</p> <p>Mae hefyd yn bwysig, fodd bynnag, fod seilwaith un ysgol ar un safle yn y dyfodol yn sicrhau ei bod yn ddigonol i fodloni anghenion y disgyblion sy'n mynychu. Mae'n hanfodol bod digon o staff addysgu a staff cymorth yn cael eu darparu, ac o ystyried y nifer fawr arfaethedig (oddeutu 800 o ddisgyblion), fod cyllid ac adnoddau digonol yn cael eu darparu i sicrhau bod pob disgybl sy'n mynychu yn gallu cyflawni eu potensial llawn.</p> <p>Mae angen trefnu cyllid priodol nawr er mwyn sicrhau bod adnoddau effeithiol yn cael eu darparu i'r ddwy ysgol. O ystyried y gymuned economaidd-gymdeithasol heriol y mae dalgylch y ddwy ysgol yn ei gwasanaethu, mae'n bryder difrifol i'r Cyrff Llywodraethol fod rhaid i gyllid digonol gael ei ddarparu er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth orau i'r plant sy'n mynychu'r ysgolion hyn.</p> <p>Mae'r ddau gorff llywodraethol yn rhannu'r weledigaeth o greu un ysgol gynradd gymunedol a fyddai'n gallu diwallu anghenion y gymuned gyfan. O ystyried yr heriau sy'n wynebu cymuned Aberdaugleddau, gallai darparu ysgol o'r fath, a darparu adnoddau ar ei chyfer, weddnewid bywyd y dref hon.</p> <p>Mae adroddiad Donaldson yn cymell newid sylweddol mewn addysg yng Nghymru, ac fel y cyfryw byddai'n fuddiol mabwysiadu ymagwedd ysgol gynradd pob oedran. Byddai mentrau newydd diweddar i godi safonau llythrennedd a rhifedd fel y Big Maths Programme yn gallu cael eu gweithredu mewn modd cydlynus ac effeithiol wedyn trwy gydol addysg gynradd y disgyblion, a byddai o fudd sylweddol i'r disgyblion dan sylw. Byddai ymagwedd ysgol gynradd pob oedran yn galluogi'r ysgol i fod yn fwy effeithiol hefyd wrth ddelio â materion amddiffyn plant, gan y byddai'n galluogi teuluoedd i gael gofal a chefnogaeth ar draws ystod oedran ehangach, yn hytrach na cheisio cynnal darpariaeth debyg ar</p>

	<p>draws dwy ysgol fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Byddai sefydlu adeilad ysgol gynradd newydd yn galluogi'r ysgol i wella ei rôl fel ffocws ar gyfer darparu adnoddau i'r gymuned gyfan. Byddai sefydlu ysgol a fyddai'n ymfalchïo fel canolfan ragoriaeth, sydd nid yn unig yn rhoi i blant y sgiliau angenrheidiol ar gyfer y dyfodol, ond sydd hefyd yn cefnogi ac yn darparu adnoddau i'w rhieni, o fudd aruthrol i fywyd y gymuned. Gweledigaeth y ddau Gorff Llywodraethol, pe bai'r cyfryw gyllid yn dod ar gael i alluogi sefydlu ysgol o'r fath, yw y gallai'r cyfleusterau y dylai fod yno gynnwys, er enghraifft: cyfleusterau ar gyfer darpariaeth ADY briodol, ystafelloedd cymunedol, canolfan ymwelwyr ieuchyd, lle i gylch chwarae, cyfleoedd ar gyfer dosbarthiadau rhianta, cwnsela. Byddai'r rhain, law yn llaw â'r cyfleuster Dechrau'n Deg effeithiol yn Ysgol y Meads, yn sicr yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i un o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yn Sir Benfro.</p>
AG3	<p>Rwy'n ysgrifennu atoch chi i dynnu sylw at y cyfle gwych sydd gan Cyngor Sir Penfro i ehangu ei ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn ysgolion y Sir. Fe welwch chi isod fy sylwadau o'r ffurflen ymateb:</p> <p>Dw i'n credu yn gryf y dylai'r Cyngor gynllunio er mwyn darparu addysg Gymraeg i bawb. Gall y Cyngor baratoi nawr ar gyfer hynny a manteisio ar y cyfle i gynnig addysg ddwyieithog i blant ardal Aberdaugleddau. Mae hawl gan phob disgybl i hynny ac mae galw amdani.</p> <p>Gallai'r Cyngor newid category iaith yr ysgol wrth uno a sefydlu'r ysgol 3-11 newydd, gan greu ysgol gategori EW yn y lle cyntaf a chreu ffrwd a fydd yn datblygu yn raddol fel sydd wedi digwydd ym Mhenfro, Hwlfordd a Dinbych y Pysgod.</p> <p>Gyda'r ysgol uwchradd Gymraeg yn agor yn Hwlfordd o fewn dwy flynedd bydd mwy o rieni'r ardal eisiau addysg Gymraeg i'w plant wrth iddynt weld manteision dwyieithrwydd, yn gymdeithasol ac yn economaidd.</p> <p>Dw i ddim yn byw yn ardal Aberdaugleddau ond hoffwn i feddwl bod plant ardal Aberdaugleddau yn cael yr un cyfle a gafodd fy mhlant i (a dw i'n credu eich plant chi) i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Mae fy mhlant i nawr yn defnyddio'r ddwy iaith yn eu gwaith ac yn eu bywyd bob dydd. Oni bai am weledigaeth Sir Benfro (a Dyfed gynt) yn y gorffennol fyddai hynny ddim yn wir.</p>
AG4	<p>Mae Menter Iaith Sir Benfro (MISB) yn gorff sydd yn gwasanaethu anghenion trigolion led led Sir Benfro gyda'r nod o ehangu'r defnydd o'r iaith Gymraeg. Mae darpariaeth addysg Gymraeg yn elfen greiddiol o ddiogelu ffyniant yr iaith.</p> <p>Er mwyn sicrhau dilyniant cyfle o addysg feithrin trwy'r cyfnodau allweddol i addysg uwch mae'r Fenter yn argyhoeddiedig ei bod yn angenrheidiol i Gyngor Sir Penfro (CSP) nid yn unig gynllunio'r ddarpariaeth Gymraeg mewn modd cynhwysfawr ond hyrwyddo'r ddarpariaeth hynny yn gadarnhaol a rhagweithiol. Buasai hyn yn unol a bwriad Llywodraeth Cymru i sicrhau sefydlu llwybr Cymraeg ar gyfer pob disgybl. Mae'r adrefn arfaethiedig yn ardal Aberdaugleddau yn gyfle da i weithredu'r egwyddor hon cyn ei bod yn dod yn ofyniad statudol.</p> <p>Mae MISB wedi croesawu bwriad CSP i sefydlu ail Ysgol uwchradd ddwyieithog yn Hwlfordd. Er mwyn sicrhau nid yn unig ffyniant yr Ysgol</p>

newydd honno ond parhad llwyddiant Ysgol Uwchradd Ddwyeithog y Preseli mae'n gwbl allweddol fod llif digonol o ddisgyblion cymwys yn cael ei greu yn y sector gynradd. Gofid gwirioneddol MISB os na ddigwydd hynny yw y bydd y ddarpariaeth addysg ddwyieithog uwchradd oddi fewn i'r sir yn anghynladwy.

Cred MISB yn gryf fod yr elfen gymunedol, leol yn hynod bwysig i gynyddu'r ddarpariaeth, gynradd Gymraeg. Mae cyfle gan CSP i adeiladu gyda phartneriaid ar y 30% wnaeth ymateb i'r yngynghoriad cychwynnol ym mis Ebrill, a'r ddeiseb o 148 a gyflwynwyd yr un pryd yn galw am addysg gynradd Gymraeg yn yr ardal. Yn ogystal, dengys ystadegau Cyngor Sir Penfro ar adeg paratoi gwaith ymchwil er mwyn mesur y galw am addysg Gymraeg yn ardal Aberdaugleddau yn 2013 y buasai canran sylweddol o rieni yn manteisio ar addysg Gymraeg petai'r ddarpariaeth o fewn dwy filltir i'r cartref.

Ymhellach, mae'r Cyngor wedi nodi bod bron i 60 o ddisgyblion o ardaloedd Aberdaugleddau, Llangwm a Neyland yn mynd i Ysgol Glan Cleddau yn Hwlfordd gan mai honno yw'r Ysgol gynradd Gymraeg agosaf. Cred MISB yn sicr, y gellid cynyddu'n sylweddol y rhif hwn o ddisgyblion sydd eisiau cael eu addysgu'n ddwyieithog drwy greu darpariaeth yn Aberdaugleddau.

Yn ymarferol, gallai'r Cyngor newid category iaith yr Ysgol wrth uno a sefydlu'r ysgol 3-11 newydd, gan greu Ysgol categori EW yn y lle cyntaf, a bod hynny yn weithredol i bob oedran yn syth gydag ystyriaeth i gyflwyno ffrwd Gymraeg yn raddol o'r Cyfnod Sylfaen.

Fel y soniwyd eisioes, mae angen cam datblygol rhagweithiol a chadarn i sicrhau twf yn y ddarpariaeth addysg Gymraeg yn Sir Benfro. Mae'r ardal drefol hon gyda'i phoblogaeth sylweddol yn cynnig cyfle gwych i CSP fedru gwneud hyn gan sicrhau ffrwd gref o ddisgyblion i fwydo'r ddarpariaeth uwchradd ehangedig.

AG5			<b>Ysgol Sant Ffransis AG5</b>	<b>Ysgol Y Meads AG6</b>	<b>Ysgol Iau Aberdaugleddau AG7</b>
AG6		Pethau da am y cynnig?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Arbed arian trwy brynu ond un gwisg ysgol</li> <li>• Un ethos ysgol</li> <li>• Fyddai rieni ond yn gorfod delio a un pennaeth rhwng oedrannau 3-11</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fyddai'n teimlo'r un fath</li> <li>• Mae nifer yn teimlo ei fod yn beth da i gael ond un gwisg ysgol – dim angen prynu rhagor</li> <li>• Rhai yn meddwl byddai cael un pennaeth yn well i rieni</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Fyddai'n rhwydd symud o Ysgol y Meads i'r Ysgol Iau</li> <li>• Mwy o bobl i fod yn ffrindiau gyda</li> <li>• Haws i rieni</li> <li>• Haws i ollwng brodyr a chwiorydd mewn un adeilad</li> <li>• Haws i gysylltu a un pennaeth</li> <li>• Fyddai plant hŷn yn dangos mwy o ofal ac yn fwy gofalus dros diogelwch plant bach</li> <li>• Un ffynhonnell arian i wella'r ddau ysgol</li> <li>• Codi mwy o arian elusennol</li> </ul>
AG7	Beth ydych yn meddwl am y cynnig i uno Ysgol y Meads a Ysgol Iau Aberdaugleddau i wneud un ysgol ar gyfer disgyblion 3-11?				

	Pethau drwg am y cynnig?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Un pennaeth am 800 o blant</li> <li>• Efallai fyddai'r pennaeth heb fod ar gael gan ei bod ar safle arall</li> <li>• Mae'r ysgol yn orlawn yn barod</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni fydd y pennaeth yno ar bob adeg</li> <li>• Efallai na fydd digon o oedolion</li> <li>• Dim digon o le i gynnal un wasanaeth</li> <li>• Mae'r manau chwarae bob tro yn rhy brysur</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gormod o blant ac felly bydd rhaid i ni gael un adeilad mawr newydd i bawb</li> <li>• Os bydd ysgol newydd bydd rhaid cael neuadd fawr er mwyn cynnal digwyddiadau ysgol gyfan</li> <li>• Ystafell digon mawr er mwyn cynnal cyfarfodydd staff</li> </ul>
	Pleidlais ar y cynnig:  Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	11	0	2
	Rwy'n cefnogi'r cynnig	4	14	15
	Rwyn'n gwrthwynebu'r cynnig	6	8	0
Beth ydych yn meddwl am y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gatholig Sant Ffransis i fod yn 3-11?	Pethau da am y cynnig?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella addysg y plant ieuengaf</li> <li>• Fyddai brodyr a chwiorydd disgyblion sy'n mynd i'r Meads yn dod yma yn lle</li> <li>• Fyddai rhaid newid ysgol yn ieuengach</li> <li>• Fyddai disgyblion ieuengach yn</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Mae Ysgol y Meads yn brysur ac mae angen rhagor o le</li> <li>• Mae ein neuadd yn rhy fach</li> <li>• Mannau chwarae yn rhy fach</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Helpu lleihau niferoedd yn Y Meads er mwyn llenwi Sant Ffransis</li> <li>• Lle i brodyr a chwiorydd disgyblion Sant Ffransis fynd iddi</li> </ul>



			teimlo'n mwy cysurus gan fyddant yn adnabod pobl <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dod i adnabod y staff a'r ysgol yn gynt</li> <li>• Ni fyddent yn mynd ar goll</li> <li>• Addysg Gatholig yn gynt</li> <li>• Mantais addysgol</li> <li>• Mae'n ysgol neis a dylai disgyblion fwynhau</li> </ul>			
	Pethau drwg am y cynnig?	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efallai bydd rhai disgyblion yn gweld eisiau eu ffrindiau ar y dechrau</li> <li>• Gorlenwi</li> <li>• Prydau cinio ychwanegol</li> <li>• A fydd yna ddigon o le?</li> <li>• Y maes parcio yn orlifo</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efallai byddai Ysgol y Meads yn wag os fydd pawb yn penderfynu mynd i Sant Ffransis</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Efallai bydd gormod o blant yn mynd i Ysgol Sant Ffransis</li> </ul>		
	Pleidlais ar y cynnig:  Nid wyf yn teimlo'n gryf un ffordd neu'r llall	3	0	5		
	Rwy'n cefnogi'r cynnig	18	11	12		

		Rwyn'n gwrthwynebu'r cynnig	0	11	0
Yn y dyfodol, efallai gewn ni rhagor o arian ar gyfer ysgolion. Pledleisiwch am beth fyddech yn dymuno:		Un ysgol ar un safle (tua 800 o ddisgyblion)	18	16	16
		Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2 ar wahân ar draws 2 safle	1	6	1
		Arall	2		
	Unrhyw sylwadau neu syniadau ynglŷn a addysg cynradd yn Aberdaugleddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Angen gwell mynediad i Sant Ffransis a gwell parcio</li> <li>• A fyddwn ni'n dal i gael maes chwarae?</li> <li>• Pwy fydd yn paratoi ein prydau bwyd?</li> </ul>	<p>Syniadau ar gyfer ysgol newydd:</p> <p>Mae angen:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwelyau blodau</li> <li>• Pwll tywod</li> <li>• Ystafell wyddoniaeth</li> <li>• Gât a 4 siglen</li> <li>• Cyfarfod a rhagor o bobl a mwy o ffrindiau</li> <li>• Becso am fod yn rhy fawr</li> <li>• Cael mwy o teganau</li> <li>• Gallwn ni gael awyren pren?</li> <li>• A fyddwn ni'n cael bathodynau newydd ar ein gwisg ysgol?</li> <li>• Beth fydd yn digwydd i'n</li> </ul>		

			<p>athrawon?</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Fyddwn ni'n cael offer newydd? Neu a fydd rhaid defnyddio'r offer presennol?</li><li>• Fyddwn ni'n dal i fedru defnyddio'r goedwig?</li></ul>	
--	--	--	--	--

DATA PERFFORMIAD 2016 - FY YSGOL LEOL

Pob Disgybl	Ysgol Babanod Y Meads				Ysgol Iau Aberdaugleddau				Ysgol Gatholig Sant Ffransis			
	Ysgol	ALI	Teulu Cymru	Cyfanswm Cymru	Ysgol	ALI	Teulu Cymru	Cyfanswm Cymru	Ysgol	ALI	Teulu Cymru	Cyfanswm Cymru
<b>Y Cyfnod Sylfaen (CS)</b>												
Disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwylidig ym meysydd dysgu'r Cyfnod Sylfaen	76.4%	86.5%	83.6%	87%					85.7%	86.5%	81.6%	87%
Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol (Deilliant 5+)	79.8%	93.9%	92.2%	94.5%					100%	93.9%	90.8%	94.5%
Medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu – Saesneg (Deilliant 5+)	76.4%	88.2%	85.3%	88%					85.7%	88.2%	82.5%	88%
Datblygiad mathemategol (Deilliant 5+)	78.7%	89.8%	87.8%	89.9%					100%	89.8%	85.5%	89.9%
<b>Cyfnod Allweddol 2</b>												
Disgyblion a gyflawnodd y deilliant disgwylidig yng Nghyfnod Allweddol 2 (Dangosydd pwnc craidd) (yn ôl PYDd)					72.3%	87.1%	85.7%	88.6%	87.5%	87.1%	86.7%	88.6%
Disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig mewn Saesneg					77.1%	89.8%	89.3%	90.3%	87.5%	89.8%	89.1%	90.3%
Disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig mewn Mathemateg					75.9%	90%	88%	91%	93.8%	90%	89.8%	91%
Disgyblion a gyflawnodd y lefel ddisgwylidig mewn Gwyddoniaeth					80.7%	91.2%	89.5%	91.7%	93.8%	91.2%	91.4%	91.7%